Un Llais Cymru
One Voice Wales

# Cyfle Cyllido: Grant Strategol Gwirfoddoli Cymru Partneru gyda Mudiadau Lleol

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**Rydym yn falch iawn o rannu cyfle cyllido allai gefnogi eich mentrau cymunedol, ac yn enwedig felly'r rhai sy'n canolbwyntio ar wirfoddoli ac ymgysylltu cymunedol.**

**Mae Grant Strategol Gwirfoddoli Cymru (2025-28) yn cynnig £50,000-£100,000 ar gyfer prosiectau sy'n gwella arferion gwirfoddoli ledled Cymru. Er na all Cynghorau Cymuned a Thref wneud cais yn brif ymgeisyddion, mae cyfle gwych i bartneru gydag elusennau lleol, mudiadau gwirfoddol, neu fentrau cymdeithasol i gyflawni prosiectau ystyrlon sydd o fudd i'ch cymuned.**

## Sut Allai Hyn Fod O Fudd I'ch Cyngor?

Trwy ddod o hyd i bartneriaid a chydweithio ar brosiect, gall cynghorau:

- Fynd i'r afael â heriau lleol fel tlodi bwyd, unigedd cymdeithasol, neu weithredu ar hinsawdd trwy fentrau dan arweiniad gwirfoddolwyr.
- Cael gafael ar ragor o adnoddau ac arian i gefnogi gwasanaethau cymunedol.

Cryfhau partneriaethau gyda mudiadau lleol, a chynnig buddion cynaliadwy, hirdymor i bobl leol.

## Enghreifftiau o Brosiectau Posib:

- Mentrau Bwyd Cymunedol Dan Arweiniad Gwirfoddolwyr: Gweithiwch gyda banc bwyd lleol i sefydlu rhaglenni prydau bwyd neu barseli bwyd ar gyfer trigolion bregus.
- Prosiectau Gweithredu Amgylcheddol: Partnerwch gydag elusennau amgylcheddol i gydlynu dyddiau glanhau neu brosiectau gwytnwch hinsawdd yn eich ardal.
- Rhaglenni Cyfeillio a Chefnogaeth i Bobl Hŷn: Cydweithiwch gyda sefydliadau iechyd i leihau unigedd cymdeithasol trwy wasanaethau cyfeillio gwirfoddol.
- Cynhwysiant Digidol: Partnerwch gydag elusen neu fenter gymdeithasol leol sy'n arbenigo ar sgiliau digidol i greu rhaglen cymorth technegol wirfoddol ar gyfer oedolion hŷn.

Digwyddiadau Celfyddydol & Diwylliannol Cymunedol: Cydweithiwch gyda mudiadau celfyddydau neu grwpiau diwylliannol lleol i greu gŵyl gelfyddydol gymunedol leol dan arweiniad gwirfoddolwyr yn dathlu'r iaith Gymraeg, treftadaeth, a doniau lleol.

## Camau Nesaf:

1. Dewch o hyd i bartneriaid posib yn eich ardal (e.e., elusennau lleol, cynghorau gwirfoddol, byrddau iechyd)
2. Estynnwch allan i drafod sut allech gydweithio ar brosiect sydd o fudd i'ch cymuned.
3. Cydweithiwch i gryfhau eu cais am arian.

## Mwy o Fanylion:

Er mwyn cael mwy o fanylion am y grant, ewch i Gwnewch gais yn awr am Grantiau Strategol Gwirfoddoli Cymru - WCVA neu cysylltwch â ni os ydych angen help i ddod o hyd i bartneriaid posib neu roi syniad prosiect at ei gilydd.

**Dewch inni weithio gyda'n gilydd i ddod â mwy o adnoddau a chefnogaeth i'ch cymuned.**